Ebrill 2020 Rhifyn 285



# Gair y Gweinidog

Mae hi'n Ebrill y 1af, dydd Ffŵl Ebrill, dydd llawn triciau a thynnu coes, dydd dweud anwiredd a dydd llawn chwerthin a theimlo'n ddwl! Petae rhywun wedi awgrymu ein sefyllfa bresennol ychydig fisoedd yn ôl, 'tynnu coes' fyddai wedi dod i feddwl y rhan fwyaf ohonom a phetae rhywun wedi awgrymu bywyd o ynysu, strydoedd tawel a gwag, gweithio o gartref a dim mwy na dau i ymgasglu a hynny dau fedr arwahan, anodd fyddai credu. Fel y dywedais yn fy llythyr, rhywbeth hyd braich oedd y sôn am Covid 19 a rhywbeth oedd yn effeithio ar fywydau y lleiafrif ond nid felly bellach. Mae pethau wedi newid a ninnau'n gorfod addasu o ddiwrnod i ddiwrnod a byw ein bywydau mewn ffyrdd gwahanol. Beth sy'n rhyfeddu rhywun yw pa mor dda mae pobl yn addasu a pha mor ddyfeisgar y mae unigolion. Bellach mae CÔR-ONA ! yn rhan o'n gwrando dyddiol ar 'Facebook' ac yn adlewyrchu ein hoffter fel cenedl o ganu ac mae yna bobl yn cadw defod a'r defodau hynny yn help i batrymu bywyd dyddiol. Mae un o bobl y Morfa yn cael coffi bob bore am unarddeg a thrwy osod cwpan a 'cafetière', llyfr neu lun ar Facebook, yn eich gwahodd chi a fi i ymuno, ac eraill yn darganfod sgiliau coginio newydd ac anarferol. Pwy feddylia ei bod yn bosibl coginio cacen a hynny gyda dim ond tri o gynhwysion! Y cyfan yn adlewyrchu'n gallu i ddelio â sefyllfa ddyrys a gwarchod rhyw fesur o normalrwydd. Mae'r arwyddion o ofal a chonsyrn yn dangos cymdeithas ar ei gorau a gwerthawrogiad o deulu a chyfeillgarwch yn dwyshau. Ond ar yr un pryd mae rhywun yn ymwybodol o deimladau naturiol o bryder ac ansicrwydd. Ym mhethau cyffredin bywyd, wrth ofalu am ein teuluoedd a'n hunain, ond hefyd wrth weld a phrofi bywyd mewn ffordd wahanol. Ar un llaw gall pryder fod yn rhywbeth dinistriol ac yn gyfrwng i ddarnio unrhyw deimlad naturiol o obaith a diolchgarwch, ar y llaw arall gall fod yn gyfrwng i'n codi ni mewn bywyd,

calon a meddwl, i’r ddealltwriaeth o bethau uwch. Tydi ffydd ddim yn ein gwarchod ni o realiti bywyd ac felly mae’r ddealltwriaeth o gynhaliaeth yn alweddol. Bellach mae’r defnydd o Facebook, Youtube a’r Wefan yn rhan o’n bywyd a’n gweinidogaeth fel eglwysi a phawb yn arbrofi ac yn darganfod ffyrdd newydd o addoli a bugeilio ac mae yna arwyddion cyffredinol hefyd fod pobl o’r newydd yn meddwl am fywyd a’u bywydau mewn ffyrdd gwahanol. Pwy feddylia y byddai shift mewn ysbyty yn dechrau gyda gair o weddi a phlismyn ar ochr lôn yn gofyn am fendith a nerth. Mae hi’n gyfnod ple mae’r ymdeimlad o berthyn yn dwyshau a theulu, cymdogaeth, eglwys a ffrindiau yn golygu mwy i ni ac mae’n gyfnod hefyd ple mae rhywun yn agor ei hunan o’r newydd i bethau uwch, i’r ddealltwriaeth o Dduw ac i’r profiad o gynhaliaeth a chysur â Christ yn y canol.

Ac felly’r gwahoddiad, fel y mae’r Apostol Paul yn ei ddweud :-

‘…i ni gadw’n golwg, nid ar y pethau a welir, ond ar y pethau na welir. Dros amser y mae’r pethau a welir, ond y mae’r pethau na welir yn dragwyddol’.

Calon neges y Pasg, i fyw y bywyd atgyfodedig ac i brofi’r gobaith a’r llawenydd yna sy’n dragwyddol.

Bendithion y Pasg i bawb ohonoch.

Eifion.

## Llongyfarchiadau ...

- Priodas Aur: Llongyfarchiadau i Elfed ac Elsbeth Jones ar ddathlu eu priodas aur.
- Geni:  Llongyfarchiadau i Lowri ac Oscar ar enedigaeth eu mab cyntaf, Alfie Rhoslyn, ẃyr i Huw Evans a gor- ẃyr i Mary Evans.
- Priodas: Llongyfarchiadau i Hannah ac Edward Burfoot a briodwyd yn eglwys St. James, Harvington, ger Evesham.  Mae Hannah wedi ymaelodi yn Eglwys y Bedyddwyr, Harvington ac mae’r ddwy eglwys yn cyd-weithio yn ardderchog.  Aeth rhieni Hannah, Nigel a Tegwen James, Llanilar i’r briodas ychydig ddyddiau cyn y cyfyngiadau.
- Llongyfarchiadau i Gronw Downes ar gael ei dderbyn yn aelod o Band Ieuenctid Cymru.

## Anfonwn ein cofion a’n dymuniadau gorau at ....

Mary Evans, Miriam Lloyd Evans, Brenda Griffiths ac Owen Williams a fu yn yr ysbyty ac at bawb sydd mewn cartrefi gofal ac yn eu cartrefi eu hunain.


## Cydymdeimlwn yn ddwys  ...

- Mrs. Catherine Edwards ar farwolaeth ei phriod, Mr. Ifan Prys Edwards ac ậ Lisa a Sion a’u teuluoedd.
- Mr. Cledwyn Evans ar farwolaeth ei briod, Mrs.Margaret Evans ac ậ Neville a Brian a’u teuluoedd.
- Mrs.Miriam Lloyd Evans ar farwolaeth ei phriod, Mr. Raymond Evans ac ậ Paul a Sharon a’u teuluoedd.

# Dymunwn yn dda i:

- Meirion Morgan sydd wedi ymddeol o'i waith yn Yr Ysgol Gymraeg ar ộl rhoi gwsanaeth i'r ysgol am gyfnod maith.
- Eifion ac Alwen Roberts a fydd yn dathlu eu priodas arian ar Ebrill 29ain.

## Perfformiad Cydweithfa Cymru-Casia
## Morlan
## 20 Chwefror 2020




Naws gynnes, agos-atoch-chi sydd yn y Morlan heno a'r gynulleidfa yn eistedd ar dair ochr i sgwar y gofod perfformio diddos. Yn llenwi rhan helaeth o lawr y sgwar mae cylch – symbol byd-eang o berffeithrwydd. Cylch tenau, delicet yw hwn, wedi ei wneud o bridd.

Mae menyw mewn gwisg frodorol wrthi'n cymoni'r cylch a chyn bo hir, a hithau'n sefyll yn ei ganol, mae'n dechrau adrodd stori yn ei hiaith goeth a naturiol ei hun. Wrth iddi droi i'r Saesneg dyma ddeall ei bod yn adrodd chwedl creu

ei byd, a'r stori'n sôn am ymdrech oesol pobol i gofio tarddiad a natur eu bodolaeth. Pobol yn dechrau meddwl eu bod cystal â Duw. Pobol yn anghofio Duw a'i orchmynion caredig. Mae'n swnio'n gyfarwydd.

I ganol y cylch o bridd, sydd fel petai'n symbol o'r ddaear, daw dyn mewn siwt dywyll a chrys gwyn a chanddo bentwr o Feiblau neu lyfrau emynau. Mae'n dechrau eu gwthio, un i bob cyfeiriad, gan chwalu drwy amlinell y cylch a gynhaliwyd mor ofalus gan y fenyw, nes bod pedwar llyfr yn gorwedd ar bedwar pwynt tu hwnt i'r cylch, yn ffurfio croes ar ei draws. Dyma gyfarfyddiad - a dechrau perthynas - dau ddiwylliant, pan gyrhaeddodd y cenhadwr o Gymru, Thomas Jones, Fryniau Casia-Jaintia ym 1841.

Felly mae'r cylch wedi ei chwalu'n rhannol, ond eto mae'n gylch o hyd, a'r bylchau a agorwyd ynddo hefyd yn ddrysau i fyd newydd. Byd lle mae'r Gair yn hanfodol, a geiriau ysgrifenedig yn hollbwysig.

Argraffiadau wedyn o hanes y genhadaeth a barhaodd o 1841 hyd 1969, yn seiliedig ar lythyron y cenhadon a chwedlau a barddoniaeth Casi, wedi eu hymgorffori ym mherfformiad cyhyrog a gosgeiddig Rhys ap Trefor ac ym mywiogrwydd byrlymus Lapdiang Syiem, wrth iddynt ar brydiau yn llythrennol ddawnsio trwy wahanol elfennau eu hunaniaeth a'r berthynas rhwng y Cymry a'r Casiaid, ble mae'r mentro gwrywaidd i ben draw'r byd yn cyfarfod diwylliant matriarchaidd brodorol sy'n fwy nag abl i'w wynebu ac sy'n esgor ar gydweithio cynhyrchiol rhyngddynt. (Diddorol yw nodi sylw'r cyfarwyddwr, Lisa Lewis, yn y drafodaeth ar ôl y ddrama bod y genhadaeth hefyd wedi bod yn fodd prin i fenywod o Gymru ddianc rhag gormes batriarchaidd eu cymunedau genedigol.)

Wrth gwrs, doedd y Cymry ddim yn rhan gyfeiriol o brosiect ymerodrol Prydain ac roeddent yn rhydd i ddatblygu perthynas gynnes a chlos gyda'r brodorion, yn ôl y gwerthoedd Cymreig o gydraddoldeb rhwng pobol a pharch at gymuned, iaith a diwylliant.

Yn gefndir parhaus i'r cyflwyniad mae cerddoriaeth gyfareddol Gareth Bonello a Benedict Hynñiewta yn plethu alawon y ddau ddiwylliant i gyfleu swyn a chyffro'r stori, ambell waith yn amlwg, er enghraifft wrth i Gareth gyfrannu harmoniau lleisiol at lais Rhys yn canu'r hen emyn Cymreig, 'Y gŵr wrth ffynnon Jacob' a phryd arall yn asio'n ddiarwybod gyda storïau'r perfformwyr, gan ychwanegu at densiwn neu gyfaredd y golygfeydd. Mae Benedict yn chware ffliwt bren Casi, a Gareth yn ymuno gydag offeryn tant Casi, yn ogystal â'i gitar arferol.

Mae symlrwydd y set yn gynhaliaeth effeithiol i berfformio corfforol, trawiadol. Un elfen hudolus yw'r lluniau byw ar y sgrin sydd, fel pedwaredd wal, yn cwblhau'r sgwâr perfformio a'r gynulleidfa'n ffurfio'r tair wal arall. Arni taflunir delweddau o dirwedd fryniog, goediog, glawog a heulog Bryniau Casia ynghyd ag ambell i gipolwg o bell ar fywyd stryd mewn pentref a thref, yn teimlo'n estron a chyfarwydd ar yr un pryd.

Mae plethiant ieithyddol y cyflwyniad yn gampwaith ynddo'i hun, wrth i lefaru clir y ddau actor neidio'n naturiol rhwng y Gymraeg, yr iaith Casi a'r Saesneg.

Mae iaith, a'r cyfan mae'n ei olygu, yn allweddol, a gweithred y cenhadon o gofnodi iaith y Casiaid a dysgu llythrenedd iddynt yn drobwynt yn eu hanes. Mewn rhan arall o'r chwedl, clywn am berson brodorol a dieithryn yn gorfod croesi afon tra'n gwarchod testun sanctaidd yr un. Mae'r person brodorol yn cario ei destun yn ei geg a'r

dieithryn yn cario ei un ef ynghlwm yng ngwallt ei ben. Llithra'r person brodorol gan lyncu'r testun yn anfwriadol ond mae'r dieithryn yn llwyddo i gyrraedd y lan a'i destun yn saff. Os mai'r cenhadon yw disgynyddion yr unigolyn a lwyddodd i ddal gafael ar y testun sanctaidd, yna maent wedi dychwelyd a'i rannu'n hael gyda'r brodorion, ynghyd â'u holl wybodaeth a sgiliau eraill. (Cwestiwn arall yw pwy a wahanwyd oddi wrth y testun sanctaidd mewn gwirionedd: ai yr un a'i lyncodd, a thrwy hynny a'i hymgorfforodd, ynteu'r un a'i wisgodd ar y tu allan iddo?)

Mae'n ystrydeb gan lawer ohonom fod y Cymry wedi achub yr iaith a diwylliant Casi ac wedi helpu codi safonau byw yn y wlad, ond dim ond y Casiaid all farnu mewn gwirionedd. Mentraf bod y sefyllfa yn rhy gymhleth ac aml-haenog i ni fedru ei deall yn iawn o hirbell, a bod yr hanes yn un o golli ac ennill ar eu rhan, yn union fel y chwalwyd ac agorwyd y cylch o bridd ar ddechrau'r cyflwyniad.

Mewn sylw a barodd i mi feddwl, gan Lapdiang Syiem yn y drafodaeth wedi'r cyflwyniad, dywedodd, "If the missionaries hadn't come, then something else would have happened." Gallasai'r 'something else' hynny fod naill ai yn achubiaeth neu'n ddarfodedigaeth i'r Casiaid, ond i ni'r Cymry byddai wedi bod yn golled enfawr i hepgor y cysylltiad clos a chyfeillgar yma gyda phobl ym mhen draw'r byd sydd eto mor debyg i ni, ac sydd â chymaint i'w ddangos i ni a'i rannu gyda ni, fel yn y profiad gwych a gobeithiol yma gan Gydweithfa Casi-Cymru.

http://www.welshkhasidialogues.co.uk/adref.html

Iwan Jenkins

# Newyddion Ebeneser



Cynhaliwyd tri gwasanaeth ym mis Mawrth , gwasanaeth cymun o dan ofal ein Gweinidog, Eifion Roberts ar Fawrth y cyntaf, gwasanaeth o dan arweiniad Delyth Morgan Phillips ar Fawrth 8fed a'r olaf o dan arweiniad ein Gweinidog ar Fawrth 15fed. Mewn cyfnod anodd o ynysu mae'n braf edrych yn ôl ar y cyd-addoli, y gymdeithas a'r cyfeillgarwch a brofwyd yn Ebeneser ac edrychwn ymlaen yn fawr at weld y drysau yn ail – agor.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb. Cadwch yn ddiogel! Anfonwn ein cofion at Brenda Griffiths sydd wedi derbyn triniaeth ar ei llygaid ac at Llinos Hughes yng Nghartref Blaenpennal.

Bendithion y Pasg i bob un ohonoch.

Gorfoleddwn, Iesu mawr,<br>
Am y dydd y torrodd gwawr;<br>
Bendith newydd ddaeth i ni<br>
Wedi concwest Calfari .

D. Glyn Lewis

# YR YSGOL SUL A CLWB CŴL

Cafwyd cyfle i ddathlu Dydd Gẃyl Dewi yn y gwasanaeth unedig yn y Morlan ar Fawrth y cyntaf a daeth nifer dda o blant i fwynhau’r gweithgareddau a baratowyd ar eu cyfer.
Mae cyswllt wythnosol rhwng y Gweinidog ac athrawon Yr Ysgol Sul a’r rhieni trwy e-bost a Facebook ac anfonir dewis o dasgau ynghyd ậ neges a gweddi.
Diolch i Catherine am sefydlu Grẃp Meithrin Morfa ar Facebook. Mae’n paratoi gwers a gweithgaredd bob bore Sul. Mae cyfle i’r plant wneud y dasg gartref a dangos eu gwaith ar Facebook a‘u rhannu ag eraill. Ardderchog!








# Clwb Cŵl

Ar ddechrau mis Mawrth daeth Eifion at y clwb i son am ddathliad arbennig eleni yn 2020, sef 400 mlynedd ers cyhoeddi cyfieithiad diwygiedig Beibl Cymraeg William Morgan (1588) ym 1620. Roedd ganddo gasgliad o wahanol Feiblau i'w dangos yn cynnwys hen Feibl mawr wedi ei rwymo ậ llaw mewn croen llo. Aethpwyd ati o dan ei gyfarwyddyd i wneud gweithgaredd marblo gyda phaent olew yn arnofio ar wyneb dŵr.

Yr wythnos ganlynol daeth Iwan Bryn James i arwain, ac i alluogi pawb i orchuddio llyfr nodiadau gyda'u papur marblo. Terfynwyd y tymor gyda noson o gemau a gemau bwrdd.

**Nos Lun, Chwefror 24ain – Dathlu Gŵyl  Dewi**

Eleni, cafwyd noson bleserus iawn yng ngwesty'r 'Marine' i ddathlu Gŵyl ein nawddsant ac i ddechrau, offrymwyd gair o weddi gan Elen Worman.
Wedi'r pryd o fwyd blasus a baratowyd gan Nerys a'r staff, estynnwyd croeso cynnes i Jeremy Turner ein gŵr gwadd. Wrth ei gyflwyno, cyfeiriodd Brian Thomas at fagwraeth Jeremy yn Aberdâr cyn iddo raddio mewn Cymraeg a Drama ym Mhrifysgol Aberystwyth. Erbyn hyn, ef yw Cyfarwyddwr Artistig Cwmni Arad Goch ac Arolygwr Lleyg i ESTYN. Cawsom noson bleserus iawn wrth i Jeremy ddangos lluniau a sôn am gynhyrchiadau, datblygiadau, a theithiau 'Arad Goch' i 35 o wledydd dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf. Roedd ei frwdfrydedd dros 'y swydd orau yn y byd' yn amlwg. Gweithia'n gyfangwbl drwy gyfrwng y Gymraeg mewn theatrau, ysgolion a chymuned. Caiff yr ifanc o bob oed brofiadau am draddodiad, hanes, llên a mytholeg ganddo. Hefyd cânt annogaeth i greu gwaith eu hunain a dysgu delio gyda phrofiadau niweidiol plentyndod.
Talwyd y diolchiadau am y danteithion a gafwyd gan y gwesty, i Jeremy a Mari, ei briod, am eu dyfeisgarwch a'u blaengaredd dros y blynyddoedd, gan Dewi Hughes. Gyda Mary Jones Morris yn cyfeilio, daeth y noson i ben drwy gyd-ganu ein Hanthem Genedlaethol

**Nos Lun, Mawrth 9fed – 'Ar dramp yng Ngogledd Ceredigion'.**

Gan ddilyn thema 'Duw'r Creawdwr', arweinwyd ni mewn defosiwn gan Hywel Lloyd. Diolchwyd iddo am ei arweiniad ac hefyd i Eleri Davies am gyfeilio. Wrth iddo groesawu a chyflwyno Angharad Fychan, ein siaradwraig, cyfeiriodd Brian Thomas, y Cadeirydd, at ei magwraeth ym Mhenbontrhydybeddau a'i haddysg yn Ysgol Penweddig a

Phrifysgol Aberystwyth. Erbyn hyn, hi yw Golygydd Hŷn Geiriadur Prifysgol Cymru ac un sy'n weithgar iawn mewn sawl maes yn ei chymuned.

Aeth Angharad â ni ar daith o Benrhyncoch i Bumlumon a thrwy gyfrwng lluniau a mapiau, eglurodd i ni beth oedd tarddiad enwau lleoedd, tafarndai, melinau, lonydd a chymoedd wrth i ni dramwyo. Cawsom noson ddiddorol dros ben yn elwa o'i hymchwil eang. Dysgom am wahanol ystyron geiriau a chawsom gyfeiriadau at hanes, daearyddiaeth a straeon y fro. Talwyd y diolchiadau gan Dilys Lloyd a hynny am anerchiad byrlymus, manwl a diddorol a mynegodd Brian ei ddiolch i Carwen Fychan a Gwenda Sippings am baratoi'r lluniaeth.






# PYTIAU O'R GORFFENNOL

## Perthyn Mawrth 2011 –

‘Arglwydd, tyrd
pan fyddwn yn niffaethwch ein hamheuon
ac yn baglu yn ein hofnau a’n hansicrwydd:
*Arglwydd, tyrd i’n hargyhoeddi.*
Pan fyddwn yn niffaethwch ein hunigrwydd
heb neb yn gwmni i ni a neb i rannu gofidiau â hwy:
*Arglwydd, tyrd i’n cysuro.*
Pan fyddwn yn niffaethwch ein hanobaith,
ein methiant yn ein llethu a’r dyfodol yn dywyll:
*Arglwydd, tyrd i’n cyfarwyddo.*
Pan fyddwn yn niffaethwch ein tlodi ysbrydol,
wedi colli gafael arnat ti ac yn methu gweddïo:
*Arglwydd, tyrd i’n bendithio’.*

Elfed ap Nefydd Roberts

## Perthyn Mai 2012 –

Yn dilyn arddangosfa ‘The Forgiveness Project’ yn y Morlan – ‘Ysgogodd yr arddangosfa ar faddeuant lawer o drafod a chafodd nifer ohonom ein cyffwrdd gan anerchiad didwyll Marian Partington a lansiodd yr arddangosfa yn y Morlan ddechrau Ebrill. Cafodd Lucy, chwaer Marian, ei llofruddio….

Dyma sylwadau Sera Llewelyn am yr hyn y mae maddeuant yn ei olygu iddi hi yng nghyd-destun ei gwaith-
‘Mae’n rhywbeth dwi wedi meddwl llawer amdano dros y blynyddoedd wrth i mi ymdrin ag unigolion gwahanol yn y gwaith….Pan dwi’n wynebu ac yn ymdrin â throseddwyr neu unigolion sydd wedi cam-drin, niweidio neu hyd yn oed lofruddio, ‘fy mhen gwaith’ sy’n llywodraethu a dwi’n mynd ati i ymdrin â hwy fel unigolion gan eu herio, eu cwestiynu a cheisio’u cael i weld effaith eu hymddygiad ar eraill.Ceisio eu cael i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd. Weithiau, mae’n anodd credu fod y person sy’n eistedd o’m blaen wedi gwneud yr hyn a honnir. Mae o neu hi yn edrych mor ‘normal’. Dyna ydi’r peth yntê, dynol ydynt fel chi a fi. Mae eu hymddygiad yn gynnyrch effaith eu profiadau ar eu bywyd. I mi, mae’n bwysig credu fod pawb yn gallu newid. Mae’n anodd iawn i’r dioddefwyr ddod i delerau â’r hyn sydd wedi digwydd iddo/i ond mae hyn hefyd yn rhan fawr o’n gwaith, sef ceisio helpu’r dioddefwr i gymodi a symud ymlaen’.

## Perthyn Mawrth 2013 –

Ymweliad Heini Gruffydd, Oedfa dydd Cofio’r Holocost.

‘Roeddwn i am sgwennu’r hanes’, meddai Heini, ‘er mwyn i genhedlaeth newydd glywed y stori a sylweddoli bod angen cymdeithas o gariad heb dialedd. Y mae’r Eglwys wedi colli ffordd ar adegau, fel y gwnaeth yn yr Almaen, ond y mae angen diogelu cariad heb ddialedd bob amser.’

## Perthyn Mawrth 2015 –

### Salm i'r cymwynaswyr

Molwn di, O Dduw, am y cymwynaswyr:
y rhai sy'n teunu eu gofal fel gwlith,
yn gwasgaru caredigrwydd fel cawodydd bywiol.
O ffynhonnau eu tosturi fe dardd olew a gwin
yn falm i ysbryd briwiedig.
O ganrif i ganrif bu ôl eu dwylo ar fywydau brau,
yn rhannu ymgeledd, yn estyn gymorth.
Eu cydymdeimlad a draidd i gilfachau gofid,
gan hulio byrddau cysur yng ngŵydd galar.
Dyma'r rhai a ddangosodd ddiogelwch y sarn
lle na welid ond corstir;
hwy a fu'n tywys i greigle gadarn
lle roedd berw dyfroedd yn ddychryn.
Dirgel yn aml yw eu gweithredoedd,
wedi eu cyflawni o ymroddiad calon hael,
heb un cymhelliad ond ymateb i drueni,
heb un sbardun ond cariad cywir.
Mawrygwn dy enw, O Dduw,
am yr holl ddaioni sy'n deillio o barodrwydd y dwylo tyner.
I ti y rhoddwn fawl am yr angylion
sydd heddiw, fel erioed, yn tramwyo llwybrau daear.
Dyro, O Arglwydd, yn ein calonnau ninnau –
os mynnwn ddilyn ôl troed y gwas-
y goleuni i ganfod angen,
a'r cariad a'n gwna yn gymwynaswyr i'n cyd-fforddolion.


**Myfanwy Bennett Jones**

**Perthyn Ebrill 2016 –**

## Cyflwyniad Riding Lights yn y Morlan –

‘Enw’r cyflwyniad oedd Crosslight. ‘Roedd tri actor yn chwarae rhannau Mair, mam yr Iesu, Pedr ac Ioan. Cyflwynir hanes y dioddefaint rhwng y croeshoeliad a’r atgyfodiad, yn dangos ofn a phryder ar y cychwyn yn troi yn ryddhad a llawenydd. Yn rhannol, cyflwynir yr hanes o safbwynt Pedr, y disgybl a ddewiswyd i arwain ond a fethodd. Soniodd Eifion yn ei bregeth fore Sul, 13 Mawrth, am yr olygfa agoriadol o Pedr mewn gwewyr dwfn yn wynebu ei euogrwydd a’i hunan-siom. Dangosir hefyd ffydd a phenderfyniad tawel Mair a chydbwysedd Ioan. Roedd y cyflwyniad yn ystyriol a defosiynol….’Roedd yn gyflwyniad pwerus ac effeithiol tu hwnt’.

Noel Lloyd



## Perthyn Ebrill 2017 –

‘Erys y dehongliadau gwahanol o’r groes ond mewn byd o ddioddefaint y mae’r groes yn arwydd clir fod Duw yn agos at ei bobl hyd yn oed mewn cyfnodau tywyll a thrist, nid yw ei gariad yn cael ei orchfygu gan dristwch na chan bechod dyn. Nid yw’n rhyfedd fod Cristnogion wedi rhyfeddu at y groes ar hyd y canrifoedd – dyma arwydd maddeuant ac arwydd o gariad digyfnewid Duw.’

Golygyddol

## Perthyn Ebrill 2019 -

**Pasg 2019**

Ystyriwn eto stori – Ei aberth,
A’r gobaith roed inni;
A rhannwn wefr yr Ynni
Fu ar waith ar Gafari.

Iwan Bryn

## Perthyn Ebrill 2018 –

## Newyddion Ebeneser

Ar ddechrau Ebrill gwelwn arwyddion y Gwanwyn o’n cwmpas. Cawn brofi’r bywyd newydd a’r gobaith ddaeth i ni trwy fuddugoliaeth yr Arglwydd Iesu dros farwolaeth ar y groes gyda chymorth geiriau emyn D. Glyn Lewis :

Gorfoleddwn, Iesu mawr,
am y dydd y torrodd gwawr;
bywyd newydd ddaeth i ni
wedi concwest Calfarî.

Gorfoleddwn, Geidwad cu,
am y golau oddi fry:
hwn yw'r golau mawr a rydd
obaith gwell i blant y ffydd.

Gorfoleddwn, Fab ein Duw
am dy rodd i ddynol-ryw;
tarddodd bywyd i bob oes
drwy y wyrth ar bren y groes

Gorfoleddwn, llawenhawn:
gwag yw'r bedd, a'r nef yn llawn;
rhoddwn ynot ti ein ffydd,
arwr mawr y trydydd dydd.

## **LLUNIAU YN CYFLEU LLAWENYDD Y PASG BYWYD NEWYDD!**









## Pasg Hapus!
## (I'r plant)

Dwi ychydig bach yn drist yr wythnos yma! Ia trist wrth feddwl am yr hyn ddigwyddodd i'r Iesu yn ystod ei wythnos olaf ar y ddaear ond trist hefyd o sylweddoli na fyddwn ni yn gallu cyfarfod gyda'n gilydd ar Sul y Pasg. I geisio helpu dwi wedi cynnwys rhai lluniau i'n hatgoffa o'r hyn yr ydan ni wedi bod yn ei wneud yn y gorffennol. Ydach chi'n cofio'r anifeiliaid fu yn yr oedfa? Cywion, cwningen, oen, heb anghofio'r parot lliwgar! Pob un ohonynt yn ein atgoffa o fywyd newydd a'r llawenydd yna wrth gofio fod yr Iesu wedi atgyfodi a dod yn fyw. Dyna ydi ystyr y Pasg, bod Duw trwy Iesu Grist yn eich gwahodd chi a fi i fyw bywydau newydd, gwahanol. Bywyd lle mae cariad yng nghanol pob peth.

I helpu ni i gofio hynny dwi wedi cynnwys cwpwl o bethau i'w gwneud (tud 28 a 29) a gallwch gael mwy o ddeunydd trwy fynd i wefan Cyngor Ysgolion Sul.

Dyma lun arall –



## Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De

Ni chynhelir y Sasiwn ym Mhontarddulais ar Fai 21ain eleni oherwydd yr amgylchiadau presennol, ond cynhelir y Sasiwn yng Nghapel y Gopa Pontarddulais ar Fai 20fed 2021 ac yng Nghapel y Morfa ym Mai 2022.
Byddwn yn anfon cyfraniad at y Genhadaeth trwy law Y Trysorydd, Mrs. Brenda Parry Owen ac yn barod i dderbyn y blychau a’r cyfraniadau oddi wrth unigolion pan fydd y sefyllfa bresennol yn dirwyn i ben.

### Bwletin Cenhadol

Bydd Bwletin Cenhadol y Gwanwyn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Adran y Chwiorydd.

### Gohirio

Mae Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion yng Nghapel y Garn ar Fai 3 wedi ei ohirio tan 2021.




Efallai y bydd rhai ohonoch wedi fy ngweld yn chwythu fy organ geg rownd y dref mewn band blŵs o'r enw Hollow Log. Dros y blynyddoedd mae sawl un wedi holi sut y gallai brawd i weinidog gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru ganu 'cerddoriaeth y diafol'! Fodd bynnag, mae cyfeirio at y blŵs fel cerddoriaeth y diafol yn diystyru cyfoeth o gerddoriaeth Gristnogol ac mae Blind Willie Johnson ymysg y cewri.

Cafodd ei eni yn Pendleton, Texas ym 1897 a chafodd gitâr gyntaf, oedd wedi ei gwneud o focs sigars, gan ei dad ac yntau ond yn bum mlwydd oed ac wedi colli ei fam flwyddyn ynghynt. Does neb yn siŵr sut y collodd ei olwg ond mae dwy stori'n aros: bod ei lysfam wedi taflu hylif lleisw (lye water) ato wrth ddadlau gyda thad Willie am ei hanffyddlondeb neu iddo wisgo par anghywir o sbectol wrth wylio diffyg yn yr haul ym 1905.

Cafodd ei fagu'n Fedyddiwr a daeth yn efengylwr oedd yn canu ar y stryd - weithiau ar ei ben ei hun ac weithiau gyda'i

wraig gyntaf Willie B. Harris a chwpan ar wddw’i gitâr er mwyn casglu arian. Byddai’r ddau hefyd yn canu er mwyn codi arian i’r Marlin Church of God in Christ ble byddai’n cyfeilio ar y berdoneg.

Ar Ragfyr y 3ydd, 1927 bu iddo deithio i ardal chwedlonol Deep Ellum yn Dallas er mwyn recordio gyda chwmni Recordiau Columbia. Mae'r sesiwn honno’n rhan allweddol o hanes y blŵs ac enillodd $50 am bob cân gafodd ei defnyddio - arian sylweddol ar y pryd.

Ymysg y caneuon roedd rhai o glasuron pwysicaf y blŵs: John The Revelator ac un o ganeuon sydd bob amser yn fy sobri

‘Ain’t Nobody’s Fault But Mine’:
‘I have a Bible in my home
I have a Bible in my home
If I don't read it my soul be lost.’

Cafodd ymateb arbennig i’r recordiau gyda’r adolygwr Edward Abbe Niles yn disgrifio synau oedd yn llawn ‘violent, tortured, and abysmal shouts and groans, and … inspired guitar playing’ ym 1928. Yn wir, flynyddoedd yn ddiweddarach cyfeiriodd yr awdur James G. Carlson at Blind Willie Johnson fel canwr ‘who praised the Lord and sang like the devil’.

Mae  ei glasur 'Dark Was the Night, Cold Was the Ground' yn gyfuniad o gitâr sleid a gruddfan galarus ac er nad oes geiriau yn fersiwn y canwr blŵs mae wedi ei selio ar emyn oedd yn boblogaidd iawn ymysg y rhai oedd yn dysgu sol-ffa yn y 'Deep South'.

Roedd yr emyn wedi ei chyfansoddi gan Thomas Haweis (1732-1820) offeiriad oedd yn wreiddiol o Truro yng Nghernyw. Cyfeirir at yr emyn fel Gethsemane ac mae’r geiriau'n rhai dirdynnol.

Dark was the night, and cold the ground
On which the Lord was laid;
His sweat, like drops of blood ran down;
In agony he prayed.

Father, remove this bitter cup,
If such Thy sacred will;
If not, content to drink it up,
Thy pleasure I fulfil.

Yn 1977, anfonwyd dwy 'record aur' i'r gofod ar longofod Voyager a dyma oedd gan Jimmy Carter, Arlywydd Unol Daleithiau America i'w ddweud am gynnwys y ddwy record: ‘This is a present from a small, distant world, a token of our sounds, our science, our images, our music, our thoughts and our feelings. We are attempting to survive our time so we may live into yours.’
Yn ôl y comedïwr Steve Martin mae 'na fodau arallfydol eisoes wedi gwrando ar y ddwy record ac wedi anfon y neges yn ôl i'r ddaear sy'n gofyn yn garedig am gael 'mwy o Blind Willie Johnson os gwelwch yn dda'.

Diolch i Dilwyn Roberts-Young am yr erthygl yma.

## Cyfraniadau

Os ydych yn arfer cyfrannu’n rheolaidd drwy amlenni wythnosol, ac yn awyddus i barhau i wneud hynny tra bydd y capel ar gau, mae croeso i chi gysylltu â Rhidian ar 610160 neu rhcgriffiths@btinternet.com i drefnu ffordd o drosglwyddo eich cyfraniadau.

Diolch yn fawr.

# GWEDDI'R PASG.



Arglwydd Iesu Grist,
trwy dy atgyfodiad nerthol
gorchfygaist bechod ac angau
a gwnaethost bob peth yn newydd.
Tyrd atom i'n llenwi â'th fywyd atgyfodedig dy hun,
i'n rhyddhau ni o bob digalondid
ac i'n tanio â gobaith a gorfoledd y Pasg.
Fel y daethost at Mair yn yr ardd
a throi ei dagrau yn llawenydd,
tyrd at bob un sydd mewn trallod,
profedigaeth ac unigrwydd,
a chofleidia hwy yn dy gariad.
Fel y daethost at dy ddisgyblion ar lan y môr,
a throi eu hofn yn hyder newydd,
tyrd at dy Eglwys ac at dy bobl heddiw
a gwna ni'n frwd a gwrol yn ein cenhadaeth.
Fel y daethost at Thomas, yr amheuwr,
a throi ei amheuaeth yn argyhoeddiad sicr,
tyrd at y rhai sy'n teimlo'u ffydd yn wan
a'r rhai sy'n cael anhawster i gredu,
a rho iddynt sicrwydd llawenydd ynot ti.
Fel y daethost at y ddau ar ffordd Emaus
a throi eu hanobaith yn orfoledd,
tyrd at y rhai sy'n teimlo'u bywyd yn ddibwrpas
a bydd yn gwmni iddynt ar eu taith.
Tyrd atom bob un
a thrwy rym dy fywyd atgyfodedig
cod ni o'n gwendid a'n methiant

a rho i ni hyder yn ein ffydd
a gorfoledd yn dy waith.

Seiliedig ar weddi o Iona

**BANC BWYD**

**Mae'n bwysig iawn inni geisio parhau i gefnogi'r Banc Bwyd yn ystod yr argyfwng presennol. Gan na fydd Capel y Morfa ar agor cysylltwch â Rhidian Griffiths ar 610160 neu rhcgriffiths@btinternet.com i wybod beth i'w wneud gyda unrhyw gyfraniad.**
**Diolch yn fawr.**

Golygyddion y mis hwn: Eifion ac Alwen
Golygyddion mis Mai : Gwerfyl a Menai
Deunydd i -
gwerfylpj@googlemail.com a
menaillwyd@googlemail.com

**Diolch i Amelia a Laurie am y lluniau.**



# Taflen Gwis
## Iesu'r Brenin: Marc 14-16





1. Wedi i Iesu farw lle rhoddwyd ei gorff i'w gladdu?

_________________________

2. Sut oedd y disgyblion yn teimlo ar ôl i Iesu farw?


_________________________

3. Ar ba ddydd aeth rhai o'r merched ag olew a sbeisys i'w rhoi ar gorff Iesu?

_________________________

4. Beth welodd y merched wrth ddod at yr ogof?

_________________________





5. Beth ddywedodd yr angylion wrthynt?

_________________________

6. Am beth oedd dau ffrind i Iesu yn sôn ar eu taith adref i Emaus?

_________________________

7. Beth ddywedodd y dyn oedd yn teithio gyda nhw am Iesu?

_________________________





8. Beth sylweddolodd y ddau pan gymerodd y dyn y bara a'i rannu?

_________________________

9. Pwy ddaeth at y disgyblion pan oeddent yn trafod yr hanesion am bobl yn gweld Iesu'n fyw?

_________________________

10. Pa ddisgybl oedd heb weld Iesu ac ddim am gredu nes iddo weld drosto'i hun?

_________________________





11. Wrth ba ddisgybl dywedodd Iesu fod ganddo waith arbennig ar ei gyfer?

_________________________

12. Pan aeth Iesu'n ôl i'r nefoedd beth oedd ei orchymyn i'r disgyblion?

_________________________

*Atebion*

*1. Mewn ogof mewn gardd. 2. Yn ofnus ac yn drist. 3. Dydd Sul. 4. Fod y garreg fawr dros ddrws y bedd wedi ei symud. 5. Fod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw 6. Am farwolaeth Iesu a'r hanesion ei fod wedi atgyfodi. 7. Eglurodd pam fod yn rhaid i Iesu farw. 8. Mai Iesu ei hun oedd o. 9. Iesu. 10. Thomas. 11. Pedr. 12. I ddweud wrth bawb amdano ef.*

